OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 132 (Cy. 42)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan y pŵer sydd wedi ei gynnwys yn Erthygl 25(b) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ("y Rheoliad CMO"), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) o'r Rheoliad hwnnw. Maent yn gymwys yng Nghymru yn unig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Erthyglau 4 a 9 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39. Maent yn diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol sy'n ategu ceisiadau am gymorth o dan y cynllun a sefydlwyd gan Erthyglau 22 i 25 o'r Rheoliad CMO. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, rhaid nad yw ymgeiswyr ond yn dal y dystiolaeth ddogfennol honno sydd ar gael i'r awdurdod perthnasol. Yn flaenorol, roedd rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ategol gyda'r cais am gymorth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 132 (W. 42)

# AGRICULTURE, WALES

## The Milk and Milk Products (Pupils in Educational Establishments) Aid Applications (Wales) Regulations 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under the power contained in Article 25(b) of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council establishing a common organisation of the markets in agricultural products ("the CMO Regulation"), as read with Article 3(5)(c)(i)(bb) of that Regulation. They apply only in Wales.

These Regulations amend Articles 4 and 9 of Commission Implementing Regulation (EU) 2017/39. They amend provisions relating to documentary evidence supporting applications for aid under the scheme established by Articles 22 to 25 of the CMO Regulation. As a result of these amendments, applicants must only hold such documentary evidence available for the relevant authority. Previously, they had to submit supporting documentary evidence with the application for aid.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 132 (Cy. 42)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Chwefror 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Chwefror 2022* |
| *Yn dod i rym* | *9 Mawrth 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵer a roddir gan Erthygl 25(b) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol(**1**), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) o'r Rheoliad hwnnw(**2**).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Mawrth 2022.

(**1**) EUR 2013/1308. Diwygiwyd Erthygl 25 gan O.S. 2019/831. Diffinir "appropriate authority" yn Erthygl 3(5)(c). Mewnosodwyd y diffiniad o "appropriate authority" gan O.S. 2019/821, ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan O.S. 2019/1422.

(**2**) Mae Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) yn diffinio Gweinidogion Cymru fel yr "appropriate authority" o ran Cymru.

(**3**) EUR 2002/178. Nid oes diwygiadau perthnasol.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 132 (W. 42)

# AGRICULTURE, WALES

## The Milk and Milk Products (Pupils in Educational Establishments) Aid Applications (Wales) Regulations 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *10 February 2022* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *15 February 2022* |
| *Coming into force* | *9 March 2022* |

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the power conferred by Article 25(b) of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council establishing a common organisation of the markets in agricultural products(**1**), as read with Article 3(5)(c)(i)(bb) of that Regulation(**2**).

There has been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**).

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Milk and Milk Products (Pupils in Educational Establishments) Aid Applications (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 9 March 2022.

(**1**) EUR 2013/1308. Article 25 was amended by S.I. 2019/831. "Appropriate authority" is defined in Article 3(5)(c). The definition of "appropriate authority" was inserted by S.I. 2019/821, and was subsequently amended by S.I. 2019/1422.

(**2**) Article 3(5)(c)(i)(bb) defines the Welsh Ministers as the "appropriate authority" in relation to Wales.

(**3**) EUR 2002/178. There are no relevant amendments.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/39 o ran Cymru**

**2.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39 ar reolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymorth Undeb ar gyfer cyflenwi ffrwythau a llysiau, bananas a llaeth mewn sefydliadau addysgol(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 4(**2**), ym mharagraff 6—

(a) ar ôl "evidence" yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder "held available for the relevant authority",

(b) hepgorer y geiriau o "The relevant authority shall specify" hyd at "aid applications."

(3) Yn Erthygl 9(**3**), hepgorer paragraff 2.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) 2017/39 in respect of Wales**

**2.**—(1) Commission Implementing Regulation (EU) 2017/39 on rules for the application of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to Union aid for the supply of fruit and vegetables, bananas and milk in educational establishments(**1**) is amended as follows.

(2) In Article 4(**2**), in paragraph 6—

(a) after "evidence" where it first appears, insert "held available for the relevant authority",

(b) omit the words from "The relevant authority shall specify" to "aid applications."

(3) In Article 9(**3**), omit paragraph 2.

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
10 Chwefror 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
10 February 2022

©ⓗHawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) EUR 2017/39. Diwygiwyd Erthyglau 4 a 9 gan O.S. 2019/1422. Diffinir "relevant authority" yn Erthygl 1(3). Mewnosodwyd y diffiniad o "relevant authority" gan O.S. 2019/1422. Mae Erthygl 1(3)(a)(ii) yn diffinio Gweinidogion Cymru fel y "relevant authority" o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd Erthygl 4 gan O.S. 2019/1422.

(**3**) Diwygiwyd Erthygl 9 gan O.S. 2019/1422.

(**1**) EUR 2017/39. Articles 4 and 9 were amended by S.I. 2019/1422. "Relevant authority" is defined in Article 1(3). The definition of "relevant authority" was inserted by S.I. 2019/1422. Article 1(3)(a)(ii) defines the Welsh Ministers as the "relevant authority" in relation to Wales.

(**2**) Article 4 was amended by S.I. 2019/1422.

(**3**) Article 9 was amended by S.I. 2019/1422.

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/132

ISBN 978-0-348-39248-7